

GWISGO GORCHUDDION WYNEB

02/12/20

Annwyl Riant/Gofalwr,

Fel y gwyddoch, mae Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe bob amser wedi cynnal safonau uchel o ran hylendid a diogelwch er mwyn sicrhau iechyd a lles disgyblion a staff. Ers mis Medi, rydym wedi mynnu bod cymuned yr ysgol yn gwisgo gorchuddion wyneb ym mhob man cymunedol dan do ac wrth deithio ar gludiant i'r ysgol. Amser cinio, mae grwpiau blwyddyn yn aros yn eu 'swigod cymdeithasol' ac nid ydynt yn cymysgu.

Yn ddiweddar, mae Llywodraeth Cymru wedi diweddarau eu canllawiau ar wisgo gorchuddion wyneb mewn ysgolion ac ar gludiant penodedig i'r ysgol. Cyhoeddwyd y canllawiau newydd hyn o ganlyniad i adroddiad y Grŵp Cyngor Technegol (GCT) diweddar sydd ar gael yma – [Adroddiad GCT](#). Fodd bynnag, **dylwn nodi mai canllawiau yw hyn ac nid polisi.**

Ar ôl ystyried yn ofalus ac mewn ymgynghoriad â'n corff llywodraethu, rydym wedi **penderfynu peidio â gorfodi wisgo gorchuddion wyneb mewn ardaloedd allanol.** Argymhellir bod disgyblion a staff yn gwisgo eu gorchuddion wyneb tra byddant yn yr awyr agored os dymunant.

Dyma'r rhesymeg y tu ôl i'r penderfyniad hwn:

- Mae gennym eisoes weithdrefnau iechyd a diogelwch llym ar waith ar draws safle'r ysgol i leihau'r risg o ledaenu COVID-19.
- Gallai wisgo masgiau wyneb yn yr awyr agored amser cinio fod yn niweidiol i les ein disgyblion.
- Nid yw gwahanol grwpiau blwyddyn yn cymysgu amser cinio.
- Nid yw'r Adroddiad y GCT yn sôn am wisgo gorchuddion wyneb ar gyfer disgyblion mewn ardaloedd y tu allan.

Byddwn yn parhau i atgyfnerthu'r protocolau iechyd a diogelwch sydd gennym ar waith ar hyn o bryd, gan gynnwys **parhau i fynnu bod masgiau wyneb yn cael eu gwisgo ym mhob ardal gymunedol dan do ac ar gludiant i'r ysgol.** Diolchwn i chi am eich cefnogaeth i'n helpu i gadw cymuned ein hysgol yn ddiogel a gofyn i chi barhau i ddarparu gorchuddion i'ch plant.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau pellach, cysylltwch â ni yn yr ysgol

Yn ddiffuant,





Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
Heol Gwryosydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU
Ffôn 01792 560600

Ebost: SwyddfaBrynTawe5@hwbcymru.net
www.bryntawe.swansea.sch.uk



**BUDDSODDWYR
MEWN POBL**

Aur



Pennaeth : Mr Simon Davies

